

Manifffesto'r Blaid Werdd 2019 - Polisi ar Dudalen

Er mwyn mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd, a chyflwyno cyfiawnder cymdeithasol, rydym yn cynnig:

Y Fargen Newydd Werdd

Bydd y Fargen Newydd Werdd yn buddsoddi yn ein dyfodol a rennir, gan ariannu gwelliannau mewn:

Ynni - gan gynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy yn lle tanwydd ffosil.

Tai - gan gynnwys darparu gwell inswleiddio ar gyfer pob cartref sydd ei angen, cyflawni uwchraddiadau gwresogi sylweddol ar gyfer 1 miliwn o gartrefi'r flwyddyn a chreu 100,000 o gartrefi cyngor ynni-ffeithlon newydd y flwyddyn.

Trafnidiaeth - gan gynnwys cyflwyno chwyldro trafndiaeth gyhoeddus a chynaliadwy, a fydd yn caniatáu i bobl deithio'n rhad ac yn ddiogel ar drenau, bysiau, llwybrau beicio a llwybrau troed newydd.

Diwydiant - gan gynnwys cefnogaeth i fusnesau ddatgarboneiddio a darparu hyfforddiant i roi sgiliau i bobl gael mynediad at filiynau o swyddi gwyrdd newydd.

Ffermio a Choedwigaeth - gan gynnwys plannu 700 miliwn o goed a chefnogaeth ar gyfer ffermio cynaliadwy.

Incwm - gan gynnwys creu Incwm Sylfaenol Cyffredinol, a delir i holl drigolion y DU i fynd i'r afael â thlodi a rhoi sicrwydd ariannol i bawb.

Bydd y cartrefi gwyrdd newydd hyn, trenau gwyrdd newydd a swyddi gwyrdd newydd yn lleihau allyriadau carbon y DU i sero erbyn 2030 ac yn darparu cyfleoedd newydd i bawb fyw bywydau hapusach a diogelach. Bydd hwn yn fuddsoddiad cyfun o dros £100 biliwn y flwyddyn yn y Fargen Newydd Werdd, gyda buddsoddiad ychwanegol mewn Incwm Sylfaenol Cyffredinol.

I helpu cyflawni'r Fargen Newydd Werdd, byddwn yn cyflwyno pedair rhaglen ddiwygio ychwanegol, wedi'u hintegreiddio'n agos â'n cynigion Bargaen Newydd Werdd:

Aros a Thrawsnewid

Pleidlais y Bobl i benderfynu ar y ffordd ymlaen ynglŷn â Brexit, lle bydd y Blaid Werdd yn ymgyrchu dros aros. Ymrwymiad i wireddu potensial llawn yr Undeb Ewropeaidd i arwain y frwydr yn erbyn yr Argyfwng Hinsawdd ac i wella bywydau gweithwyr, teuluoedd incwm isel a ffoaduriaid.

Tyfu Democratiaeth

Disodli System y Gyntaf i'r Felin gyda system bleidleisio gyfrannol, rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed, diwygio llywodraeth er mwyn brwydro'n well yn erbyn yr Argyfwng Hinsawdd a datganoli pŵer i gynghorau.

Y Warrant Werdd ar Ansawdd Bywyd

Gwrthdroi cyni ac ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael â gwahaniaethu, dod â'r rhyfel ar gyffuriau i ben ac adfer ein hamgylchedd naturiol.

Y Fargen Newydd ar gyfer Treth a Gwariant

Dod â gwariant gwastraffus i ben ar brosiectau oferedd y llywodraeth a diwygio ein system dreth fel bod y rhai mwyaf cyfoethog yn talu eu cyfran deg.